


# Y Mynegai i Blant a Phobl Ifanc sydd ag Anableddau neu Anghenion Arbennig

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019 - 2020

Gemma Owen, Swyddog y Mynegai

Becky Wickett, Cydlynydd Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Crynodeb | 4 |
| Data Allweddol 2019-20 | 4 |
| Prif Gyflawniadau 2019-20 | 4 |
| Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21 | 5 |
| Hyrwyddo’r Mynegai | 5 |
| Ymholiadau i’r Mynegai | 6 |
| Adborth | 7 |
| Ffeithiau a Ffigurau am Blant a Phobl Ifanc sy’n Rhan o’r Mynegai | 9 |
| Cofrestriadau | 9 |
| Atgyfeiriadau | 9 |
| Ystod Oedran a Rhyw | 10 |
| Ethnigrwydd | 10 |
| Dadansoddiad Daearyddol | 11 |
| Prif Reswm dros Gofrestru | 13 |
| Pob Rheswm Dros Gofrestru | 15 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 16 |
| Addysg | 16 |
| Iechyd | 17 |
| Crynodeb | 18 |
| Gwybodaeth Gyswllt | 19 |

# CEFNDIR

Mae Deddf Plant 1989 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl ddarparwyr gwasanaeth gydweithio'n agos gyda'i gilydd, mewn partneriaeth â rhieni, i sefydlu system i asesu anghenion plant a phobl ifanc gydag anableddau ac anghenion ychwanegol, ac anghenion eu teuluoedd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu'r hyn mae'r Ddeddf yn ei alw'n 'gofrestr' - 'Y Mynegai' yw'r term a ddefnyddir gan Fro Morgannwg.

Lansiwyd y Mynegai i gychwyn yn y Fro ym mis Ebrill 2005, a chafodd ei ail-lansio ym mis Ebrill 2012 drwy gymorth ariannol y grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae Swyddog y Mynegai yn fframwaith ehangach y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS). Mae Grant Teuluoedd yn Gyntaf yn ariannu swydd Swyddog y Mynegai Dros Dro a chynhyrchu cylchlythyr y Mynegai.

Cafodd y Mynegai ei ddefnyddio yng Nghaerdydd a daeth yn Fynegai ar gyfer Caerdydd a'r Fro. Oherwydd ei lwyddiant, bydd Caerdydd yn awr yn datblygu ei Mynegai ei hun. Caiff gwybodaeth am weithgareddau a gwasanaethau yng Nghaerdydd ac awdurdodau lleol cyfagos eu rhannu o hyd gyda Theuluoedd y Fro trwy Fynegai'r Fro.

Diben y Mynegai yw rhoi gwybodaeth uniongyrchol i deuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol am wasanaethau, clybiau a gweithgareddau lleol. Rydym yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad, yn cyfeirio at asiantau perthnasol ac yn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf gan deuluoedd am unrhyw newidiadau a allai effeithio arnynt.

Bydd teuluoedd sydd wedi cofrestru'n rhan o'r Mynegai yn cael ein cylchlythyr chwarterol – 'y Mynegai' - a negeseuon rheolaidd am weithdai, cyngor ar fudd-daliadau, rhwydweithio, clybiau a gwasanaethau, cyfleoedd hyfforddi, cymorth i ofalwyr ac unrhyw wybodaeth berthnasol gan asiantaethau eraill. Gall teuluoedd hefyd ofyn am wybodaeth benodol sydd o ddiddordeb ganddynt.

Mae'r Mynegai hefyd yn rhoi cymorth i ddarparwyr gwasanaeth o ran cynllunio eu gwasanaethau a'u cyllidebau. Gall roi darlun cliriach o faint o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau sydd yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd cael darlun cliriach o lefel yr angen yn galluogi'r asiantaethau i gydweithio i gynllunio gwasanaethau gwell.

Cyfeiriwyd y plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u cynnwys yn y Mynegai gan eu rhiant / gofalwr, ymwelydd iechyd, gweithiwr cymdeithasol ac asiantaethau eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir yn gofnod ffeithiol o anghenion y plentyn, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ar system ddiogel y Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

Swyddog y Mynegai

theindex@valeofglamorgan.gov.uk

0800 5871 014

## CRYNODEB

- Y Mynegai yw cofrestr wirfoddol Bro Morgannwg o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol.
- I fod yn rhan o'r Mynegai mae angen i'r plentyn / person ifanc:
    - fod wedi cael diagnosis o anabledd, yng nghanol cael diagnosis neu ag anghenion ychwanegol parhaol wedi'u cadarnhau
    - fod yn 18 oed neu iau
    - byw ym Mro Morgannwg
- Nod y Mynegai yw cynnig gwybodaeth i:
    - Deuluoedd - gan roi'r newyddion diweddaraf iddynt am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau
    - Gweithwyr Proffesiynol - yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol am anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol
    - Sefydliadau – hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth presennol

## DATA ALLWEDDOL

- Roedd 786 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru yn y Mynegai ym mis Mawrth 2020
- Bu 126 o gofrestriadau newydd i'r Mynegai rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020
- Mae 31 o blant a phobl ifanc wedi dadgofrestru o'r Mynegai, gan eu bod yn troi'n 18 oed, yn symud allan o'r ardal neu'n gofyn am gael eu dadgofrestru.
- Mae'r rhan fwyaf (67%) o'r rhai sydd yn rhan o'r Mynegai yn y Fro yn wrywaidd
- Mae'r gyfran uchaf (49%) o'r rhai sy'n rhan o'r Mynegai yn y Fro rhwng 4 a 10 oed
- Mae 58% o'r rhai sy'n rhan o'r Mynegai yn y byw yn y Barri
- Anhwylder Sbectrwm Awtistig yw'r prif reswm dros gofrestru gan 31% o'r rhai sy'n rhan o'r Mynegai
- Wrth edrych ar bob rheswm dros gofrestru, mae gan 54% (428 o blant) o'r rhai sy'n rhan o'r Mynegai Anawsterau Ymddygiadol/Emosiynol ac mae gan 50% (390 o blant) Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasoli

# CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL 2019 – 2020



- Cofrestrodd 126 o blant newydd ar y Mynegai.
- Presenoldeb rheolaidd mewn Clinigau ADHD yng Nghanolfan Plant Llandochau
- Cynhaliwyd boreau coffi'r Mynegai mewn ysgolion cynradd
- Cynhaliwyd sesiwn wybodaeth ar ôl yr ysgol mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol
- Sefydlwyd gweithgor pontio i wella gwybodaeth i bobl ifanc 14-19 oed. Roedd cylchlythyr 2020 yn cynnwys atodiad 4 tudalen ac erbyn hyn mae pob cylchlythyr yn cynnwys adran 'Cynllunio at Fy Nyfodol'
- Gofynnwyd i bob person ifanc ar y Mynegai sy'n 18 oed a hoffai gael ei ychwanegu at 'Restr Pontio' ar wahân er mwyn parhau i gael gwybodaeth allweddol.
- Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cymdeithasol i hyrwyddo cyfleoedd dydd a chefnogi rolau cynllunwyr i deuluoedd pobl ifanc
- Anfonwyd arolwg at deuluoedd yn holi am gylchlythyr y Mynegai a chynigiwyd pàs nofio i deuluoedd fel cymhelliant i ymateb
- Lluniwyd taflen Addas i Deuluoedd, yn esbonio'r Mynegai
- Gwell proses atgyfeirio ar gyfer timau gwasanaethau cymdeithasol allweddol, gan gynnwys y Tîm Iechyd ac Anabledd Plant, Dechrau'n Deg, FACT a'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf. Erbyn hyn, mae atgyfeiriadau ar gyfer IAAP a Dechrau'n Deg wedi'u nodi ar y systemau WCCIS a PARIS.
- Sefydlu proses atgyfeirio ar gyfer teuluoedd sy'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant, lle y mae'r rhiant wedi nodi bod gan y plentyn anghenion ychwanegol.

# BLAENORIAETHAU 2020 -2021

- Cysylltu'r ffurflen gofrestru ar-lein â'r gronfa ddata
- Gwella gwybodaeth am bontio trwy weithio gydag ysgolion, gweithwyr pontio a phobl ifanc
- Symleiddio ffurflen gofrestru'r Mynegai a'r data a gipiwyd
- Adolygu'r gwaith o lunio cylchlythyr y Mynegai yn unol ag adborth o'r arolwg
- Adolygu diben a fformat Mynegai'r Fro trwy ymgysylltu â theuluoedd a phartneriaid allweddol
- Gweithio gyda'r Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gyflwyno rhaglen gyfathrebu effeithiol sy'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio er mwyn adlewyrchu'r hinsawdd bresennol
- Sefydlu grŵp caeedig ar Facebook ar gyfer teuluoedd y Mynegai fel offeryn cyfathrebu ychwanegol



## HYRWYDDO’R MYNEGAI AR DRAWS Y FRO

### ALLGYMORTH

Mae’r Tîm GGID bob amser yn hyrwyddo’r Mynegai mewn digwyddiadau a chyfarfodydd a dyma enghreifftiau:

- Cyfarfod Tîm Iechyd ac Anableddau Plant
- Clybiau Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (Cynllun Chwarae a Chynllun Pobl Ifanc yn eu Harddegau)
- Clinig ADHD yn Ysbyty Llandochau
- Cyfarfodydd Trywydd Darparwyr Teuluoedd yn Gyntaf
- Sesiynau pontio Dechrau'n Deg a Diwrnodau o Hwyl i Deuluoedd
- Y Cyfeiriadur Awtistiaeth
- Ymwelwyr Iechyd Anghenion Arbennig
- Sesiynau derbyn i ysgolion a meithrinfeydd
- Gweithwyr pontio proffesiynol a Gwasanaethau Dydd Oedolion
- Sesiynau’r Ganolfan Byd Gwaith i rieni sengl

### HYRWYDDO DIGIDOL

Defnyddir y **Cyfryngau Cymdeithasol** fel offeryn cyfathrebu effeithiol. Dyma rai enghreifftiau o gyhoeddiadau Facebook sydd wedi arwain at lawer o ymgysylltu:

- Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (FFAL) - cyrhaeddwyd 1430 o bobl, 35 o ymgysylltiadau.
- Developing Dolphins - trechu anhwylderau bwyta - cyrhaeddwyd 1019 o bobl, 66 o ymgysylltiadau.
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac Anableddau Dysgu - cyrhaeddwyd 1150, 97 o ymgysylltiadau.
- Digwyddiad Cysylltu Gofalwyr - cyrhaeddwyd 1182, 36 o ymgysylltiadau
- Digwyddiad Cynhwysol Picnic a Chwarae y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd - cyrhaeddwyd 8136 o bobl, 793 o ymgysylltiadau.

**E-fwletinau -** anfonwyd 26 rhwng cylchlythyrau chwarterol

**Mae'r tudalennau gwe'r Mynegai** wedi eu gweld dros 1,390 o weithiau dros 7 mis. Yn anffodus rydym wedi methu â chael ystadegau'r we am y flwyddyn gyfan.

## YMHOLIADAU

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi derbyn bron 200 o ymholiadau i gael gwybodaeth am anghenion a chymorth ychwanegol. Gallai hyn fod gan bobl yn gofyn am y Mynegai neu a hoffai gael gwybodaeth am addysg, gweithgareddau, grwpiau cymorth ayyb.

## ADBORTH

Ar ôl cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, cysylltir â'r sawl sy'n ymholi i ofyn am adborth ar y gwasanaeth mae wedi'i gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac yn fwy penodol, gan y Mynegai.

Dywedodd 100% o'r rhai a ymatebodd fod y wybodaeth a gawsant yn eu helpu a dywedodd 89% y cawsant y wybodaeth gywir pan oedd ei hangen arnynt dywedodd 100% y byddent yn argymell ein gwasanaeth i bobl eraill.

**ENGHREIFFTIAU O ADBORTH:**

'Diolch yn fawr am anfon gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau teuluol ac am roi amser i siarad â mi am sut mae'r Mynegai wedi fy helpu fel rhiant sengl. Mae wedi fy helpu, nid yn unig i ddod o hyd i grwpiau y gallwn i fynd â'm mab atynt a theimlo'n gyfforddus ond hefyd mynd ag ef i weithgareddau lle y gallai'r rhieni uniaethu a deall pa mor anodd yw mynd yn ôl ac ymlaen i apwyntiadau cleifion allanol a'r pryder o gydbwyso sicrhau presenoldeb da yn yr ysgol a'r ysbyty a chael pobl eraill i ddeall anghenion ychwanegol eich plentyn. Hefyd helpodd fi i ddod o hyd i grwpiau cymorth ger fy ardal leol. Rwyf eisiau diolch i chi am wneud y cylchgrawn hwn a'r amser a'r meddwl rydych chi wedi ei roi i mewn iddo a'r cymorth a'r gefnogaeth mae wedi'i roi i mi ac i'm mab, diolch yn fawr eto.'

'Hoffwn petawn i'n gwybod am y Mynegai lawer ynghynt pan gafodd fy mab ei ddiagnosis gwreiddiol ond mae dod o hyd i wybodaeth yn anodd pan nad ydych chi'n gwybod am beth rydych yn edrych. Rydw i'n credu bod angen i'r GIG eich hyrwyddo


'Mae pobl yn gwerthfawrogi eich cymorth a'ch cefnogaeth gymaint a dydw i ddim yn meddwl eich bod yn gwybod faint - felly fe feddyliais i y byddwn yn dweud wrthych. Diolch yn fawr i chi. A gan ei bod yn fis Rhagfyr, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen Iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd (gan weithiwr proffesiynol)


'Rwy'n gweithio i Dechrau'n Deg. Mae pawb wedi bod yn barod eu cymwynas a rhoi llawer o gymorth, nid dim ond i mi ond i'r holl deuluoedd rwy'n gweithio gyda nhw. Mae hyd yn oed y rhieni rwy'n gweithio gyda nhw'n gweld y tîm yn ddefnyddiol iawn. Hefyd pan nad ydynt yn sicr am siarad ar y ffôn, maent yn dod allan yn teimlo'n dda eu bod wedi cael cyngor ac yn gwybod ble i fynd. Mae llawer o'm teuluoedd yn dechrau cysylltu

'Y cwbl y gallaf ei ddweud yw eu bod yn ANHYGOEL a byddwn i'n eu hargymell bob tro. Cefnogaeth dda i bawb.'

**Astudiaeth Achos**
Cysylltodd Pennaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gofyn am ofal plant, gan fod gan blentyn sy'n mynychu'r ysgol feithrin am sesiynau hanner diwrnod awtistiaeth ac roedd yn derbyn cefnogaeth ychwanegol. Roedd angen i'r rhiant weithio ac roedd trefniadau gofal plant presennol wedi methu.

Cynghorodd y Pennaeth i gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.







# PLANT A PHOBL IFANC AR MYNEGAI: FFEITHIAU A FFIGYRAU Y FRO 2019-2020

## COFRESTRIADAU

**Wedi'u cofrestru ar hyn o bryd -** 786. Mae hyn yn gynnydd o 13% ar y flwyddyn flaenorol ac yn gyfanswm o 126 o gofrestriadau newydd.

**Siart 1: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gofrestrwyd ar y Mynegai dros y tair blynedd diwethaf**




### Dadgofrestriadau

31 (3 nad ydynt yn byw yn yr ardal bellach, 2 wedi gofyn am gael eu dileu, 26 wedi troi'n 18 oed).

## ADOLYGIADAU


Adolygwyd 81  o blant. Erbyn hyn adolygir cofrestriadau bob 3 blynedd.

## ATGYFEIRIADAU

Rydym yn gofyn i deuluoedd lle y clywsant am y Mynegai ac mae rhai gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio teuluoedd yn uniongyrchol. Daeth y nifer uchaf o atgyfeiriadau at y Mynegai eleni gan yr Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig (40%).

- Gweithiwr Cymdeithasol -7
- Ymwelydd Iechyd / Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig - 35
- Llinell Gyngor Teuluoedd Yn Gyntaf 5
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd -22
- Ysgol - 2
- Ymweliad â Chlinig ADHD neu Ysbyty Llandochau - 17


**Siart 2: Ffynhonnell atgyfeiriadau at y Mynegai 2019-20**




## YSTOD OEDRAN A RHYW

- Mae'r rhan fwyaf o blant (530, 67%) sydd wedi'u cofrestru â'r Mynegai yn wrywod.
- 40, 0 - 3 oed
- 388, 4 – 10 oed
- 354, 11 – 18 oed
- 4 Heb eu datgelu


**Siart 3: Ystod oedran plant a phobl ifanc ar y Mynegai**



## ETHNIGRWYDD

Mae 78% o blant yn wyn (cyfanswm o 616 o blant), nid yw 17% wedi datgelu eu hethnigrwydd ac mae 5% (cyfanswm o 34 o blant) yn dod a gefndir ethnig lleiafrifol. Mae Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi mai dim ond 3.56% o boblogaeth y Fro sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

**Siart 4: Ethnigrwydd plant a phobl ifanc ar y Mynegai**





| | Gwyn | Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/Prydeinig Du | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| ■ | 616 | 20 | 13 | 1 | 3 |


## DADANSODDIAD DAEARYDDOL

Mae’r mwyafrif o blant ar y Mynegai yn y Barri (58%), mae 25% yn byw yng Ngorllewin y Fro a’r Fro Wledig ac mae 17% yn byw yn Nwyrain y Fro.  Mae’r map yn dangos cofrestriadau’r Mynegai yn ôl ward. Mae gan y wardiau sydd wedi’u lliwio’n fwy tywyll nifer uwch o gofrestriadau ar y Mynegai. Mae gan rai wardiau yn y Barri a Llanilltud Fawr y nifer uchaf o gofrestriadau. Er bod gan wardiau gwledig a rhai wardiau ym Mhenarth y nifer isaf o gofrestriadau. Gellid targedu mwy o hyrwyddo at yr ardaloedd hyn.

**Siart 5: Lleoliad plant a phobl ifanc ar y Mynegai**



## Number of Children Registered on The Index by Ward



## PRIF RESWM DROS GOFRESTRU

Wrth gofrestru ar y Mynegai, gofynnir i rieni / gofalwyr nodi'r prif reswm dros gofrestru ynghyd â rhestru unrhyw anawsterau / anableddau cysylltiedig eraill.


Sylwch y bydd y rhiant yn datgan anabledd ei blentyn ar sail diagnosis (os oes diagnosis), a'u canfyddiad o'r anabledd a sut mae'n effeithio ar y teulu. Er enghraifft, efallai y bydd un teulu sydd â phlentyn â Syndrom Down yn nodi mai Anabledd Dysgu yw'r prif reswm, ond efallai y bydd teulu arall yn nodi Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol, yn dibynnu ar sut yr effeithir ar y plentyn.

Mae'r Tabl isod yn nodi mai Anhwylder Sbectrwm Awtistig sy'n parhau i fod y rheswm mwyaf cyffredin dros gofrestru (34%). Yn y flwyddyn diwethaf, rhoddodd 57 o gofrestriadau newydd Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig fel y prif reswm dros gofrestru. Yr ail reswm mwyaf cyffredin oedd Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol, a oedd yn cynrychioli 24 o gofrestriadau newydd. Mae'r tabl hefyd yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig o'r flwyddyn flaenorol (50), Anawsterau Ymddygiadol/Emosiynol (43), Anabledd Corfforol (32). Nid yw'r rhain i gyd yn gofrestriadau newydd, oherwydd pan gaiff plant eu hadolygu, gofynnir iddynt a fu unrhyw ddiweddariadau ar eu diagnosis. Byddai hyn yn esbonio nifer y rhesymau 'heb eu datgelu' yn gostwng o 99 i 46.

**Tabl 1: Prif Reswm dros Gofrestru dros y 2 Flynedd Diwethaf**

| **Prif Reswm dros Gofrestru** | **2018-19** | | **2019-20** | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Canran | Cyfanswm | Canran |
| Anhwylder Sbectrwm Awtistig | 219 | 32% | 269 | 34% |
| Anawsterau Ymddygiadol/Emosiynol | 99 | 14% | 142 | 18% |
| Anabledd Corfforol / Salwch Cronig | 63 | 9% | 95 | 12% |
| Oedi Datblygiadol | 76 | 14% | 86 | 11% |
| Anabledd Dysgu | 43 | 6% | 48 | 6% |
| Heb ddatgelu | 99 | 14% | 46 | 6% |
| Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasu | 32 | 5% | 31 | 4% |
| Arall | 25 | 4% | 25 | 3% |
| Nam ar y Clyw | 15 | 2% | 18 | 2% |
| Anawsterau Lleferydd / Iaith | 11 | 2% | 14 | 2% |
| Nam ar y Golwg | 10 | 1% | 12 | 2% |

## Siart 6: Prif Reswm Dros Gofrestru ar y Mynegai Mis Mawrth 2020









## POB RHESWM DROS GOFRESTRU

Er bod teuluoedd yn nodi'r prif reswm dros gofrestru, mae gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc fwy nag un math o anabledd / anhawster sy'n effeithio ar eu bywydau. Gofynnir i deuluoedd ddatgan yr holl resymau dros gofrestru.

Mae gan 54% (428 o blant) o'r rhai sydd ar y Mynegai Anawsterau Ymddygiadol/Emosiynol. Mae gan 50% (390 o blant) Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasoli, yna Awtistiaeth (328 o blant, 42%), Oedi Mewn Datblygiad (318 o blant, 40%), Anawsterau Iaith/Lleferydd 39% (306 o blant). Byddwch yn ymwybodol bod hyn yn cynnwys plant y mae'r rhiant neu'r gweithiwr proffesiynol wedi dweud eu bod yn cael eu hasesu ar gyfer anabledd penodol.

Mae'r siart ganlynol yn dangos hyn yn fwy manwl.

**Siart 7: Pob rheswm dros gofrestru ar y Mynegai**




## Y WYBODAETH Y GOFYNNIR AMDANI

Wrth gofrestru, rydym ni'n gofyn a hoffai'r teulu unrhyw wybodaeth i'w cefnogi nhw a'u plentyn.  Yn y flwyddyn diwethaf cawsom yr ymatebion canlynol:

**Tabl 2: Y Wybodaeth y Gofynnwyd Amdani 2019-20**

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau** | 92 |
| **Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd** | 78 |
| **Gofal Plant** | 12 |
| **Asesiadau gofalwyr** | 31 |

Mae angen gwybodaeth ar lawer o rieni am amrywiaeth o agweddau.

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae gan 169 o blant yn y Mynegai (21%) Weithiwr Cymdeithasol.

Yn dilyn penodi Swyddog Cefnogi Gofalwyr o fewn y Tîm Iechyd ac Anableddau Plant, sefydlwyd cyswllt cryf i sicrhau bod y sawl sy’n newydd yn y Mynegai yn cael gwybod am Asesiad Gofalwyr.

O 2019 - 20, derbyniodd 15 o ofalwyr asesiad gofalwr ac roedd 31 eisiau rhagor o wybodaeth neu gael eu hatgyfeirio am un.

Rydym bellach yn gofyn i rieni/gofalwyr a ydynt yn derbyn gwasanaethau penodol.

**Tabl 3: Gwasanaethau a Dderbynnir gan y rhai sydd ar y Mynegai**

| Gwasanaeth a Dderbynnir | Cyfanswm ar Gofrestr y Mynegai | 2019-2020 |
|---|---|---|
| **Gweithiwr Cymdeithasol** | 173 | 17 |
| **GC ar gyfer Nam Synhwyraidd** | 8 | 1 |
| **Gofal yn y Cartref** | 1 | 1 |
| **Seibiant** | 16 | 3 |
| **Taliadau Uniongyrchol** | 17 | 4 |
| **Arall** | 37 | 2 |
| **Asesiad Rhiant Ofalwr** | 87 (ac mae 48 wedi’u hatgyfeirio) | 15 (ac roedd 31 eisiau mwy o wybodaeth neu gael eu hatgyfeirio) |
| **Asesiad Gofalwr Ifanc** | 2 | 2 |

## ADDYSG

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘y Ddeddf’)**
Ei nod yw creu:

- Fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac i gefnogi pobl ifanc gydag ADY sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach (AB)
- Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

- Disgwylir y bydd y system ADY a nodir yn y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llawn dros gyfnod o dair blynedd. Disgwylir y bydd y cyfnod gweithredu yn rhedeg o fis Medi 2021 tan fis Awst 2023.

Yn ystod ei gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol, a fydd yn cael ei diddymu'n raddol yn ystod y cyfnod gweithredu.

Nifer y plant oedran ysgol gorfodol yn y Fro, sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn ôl adroddiad PLASC Ionawr 2020, yw **2,913**, sef **16.3%** o'r boblogaeth ysgol gyffredinol. Mae hyn naill ai trwy Ddatganiad, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r plant hyn, e.e. mynediad at offer arbenigol neu gymorth ychwanegol gan y Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu . Er na fyddai pob un o'r plant hyn yn gymwys ar gyfer y Mynegai, mae'n nodi y gallai llawer mwy o blant elwa ar fod yn rhan o'r Mynegai. Mae nifer y plant sydd ag angen addysgol arbennig wedi lleihau'n sylweddol ers 2017 (3,642).

O'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru ar y Mynegai, mae gan 24% ddatganiad o angen; mae hyn wedi lleihau gan 2% ers 2018-2019. Adlewyrchir hyn yn y gostyngiad o ran plant yn yr ysgol sydd ag angen addysgol arbennig.


## IECHYD

Cydnabyddir yn eang fod gan blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol anghenion iechyd mwy dwys na gweddill y boblogaeth. Mae'r rhai sydd ag anableddau yn cael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau iechyd i fodloni eu hanghenion iechyd arferol a'u gofynion iechyd ychwanegol drwy gael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Mae 57% o blant a phobl ifanc yn y Mynegai yn y Fro yn gweld Nyrs Baediatreg / Gweithiwr Paediatreg Cymunedol, ac mae 13% wedi ymateb gydag "Arall" sy'n cynnwys: CAMHS; y Gwasanaeth Lles Emosiynol, Orthoteg; a'r Gwasanaeth Niwroddatblygiadol.

Mae'r siart isod yn dangos y gwasanaethau iechyd y mae plant ar y Mynegai yn cael mynediad atynt.

**Siart 8: Gweithwyr Iechyd Proffesiynol y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad atynt ar y Mynegai**




Mae 53 o blant ar y Mynegai (7%) yn defnyddio System Gyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniau ac mae 24 o blant (3%) yn defnyddio Makaton.

## CRYNODEB

Fel y gwelir, mae'r Mynegai yn darparu gwasanaeth hanfodol i deuluoedd â phlant ag anableddau neu anghenion ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth gywir a diweddar, am wasanaethau a chymorth y gallant eu defnyddio.

Mae'r Mynegai yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-18 oed ac mae'n cwmpasu ystod eang o ofynion unigol. Felly, un o'r heriau yw sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i deuluoedd o fudd i'w sefyllfa benodol.

Un flaenoriaeth fydd adolygu fformat y Mynegai, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion teuluoedd. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â theuluoedd a phobl sy'n gweithio gyda theuluoedd ac ymgynghori â hwy drwy grwpiau ffocws a dulliau eraill, gan adlewyrchu'r hinsawdd bresennol.

# GWYBODAETH GYSWLLT

SWYDDOG Y MYNEGAI
GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD
SWYDDFA'R DOCIAU
HEOL YR ISFFORDD
Y BARRI
BRO MORGANNWG
CF63 4RT
0800 5871014

theindex@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk/ymynegai

@VOGFIS

@VALEFIS